**Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr – Cofnodion**

**Dydd Iau 19 Mehefin 2025 am 10:00 – 15:15**

**Ystafell Ocean, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe**

**Ymddiheuriadau:**

*John Hunt, Ymddiriedolwr*
*Llion Iwan, Ymddiriedolwr*
*Daniel Richards, Ymddiriedolwr*

**Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:**

*Kate Eden (Cadeirydd)*
*Rhys Evans*
*Hywel John*
*Owen Hathway*
*David Aled Jones*
*Abigail Lawrence*
*Ameerah Mai*
*Freya Stannard*
*Richard Thomas*
*Jan Williams*
*Cai Wilshaw*
*Emma Yhnell*

**Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:**

***Jane Richardson, Prif Weithredwr***
***Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth***
***Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil***
***Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido***
***Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau***
***Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu***

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**
***Dr Nicky Guy, Llywodraeth Cymru***
***Aditi Jadhav, Cynorthwyydd Adnoddau Dynol***
***Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu (Ysgrifenyddiaeth)***
***Ioan Davies (Cyfieithydd)***

---

1. **Agor y Cyfarfod**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden

I. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
II. Nodwyd datganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitem agenda 12 gan Rhys Evans, Ymddiriedolwr, Abigail Lawrence, Ymddiriedolwr, ac Emma Yhnell, Ymddiriedolwr.
III. Ni roddwyd gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw ddatganiadau ychwanegol o fuddiant.

---

2. **Myfyrdodau a Chytuno ar Gamau Gweithredu o Ddiwrnod Datblygu'r Bwrdd, 18 Mehefin 2025**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd, a Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, Cadeirydd, a Jane Richardson, Prif Weithredwr, a nododd y canlynol:
    i. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem drwy ddiolch i'r holl Ymddiriedolwyr a'r Uwch-dîm Gweithredol am Weithdy Bwrdd llwyddiannus y diwrnod cynt, sef dydd Mercher 18 Mehefin 2025, yn Amgueddfa Wlân Cymru. Roedd aelodau o'r staff wedi rhoi taith dywys i'r Ymddiriedolwyr o gwmpas yr amgueddfa, gan gynnwys y Sied Wehyddu a'r gwyddiau newydd. Dymunai'r Bwrdd ddiolch i'r holl staff a oedd yno am daith bleserus a llawn gwybodaeth ac roedd y gallu i fasnacheiddio'r arlwy gwehyddu ymhellach er mwyn stocio siopau Amgueddfa Cymru ledled Cymru wedi gwneud argraff arbennig arnynt. Treuliwyd y rhan fwyaf o'r prynhawn hwnnw mewn gweithdy wedi'i hwyluso ar y cylch cynllunio busnes nesaf.
    ii. Yn dilyn hynny, gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i'r Prif Weithredwr a'r Uwch-dîm Gweithredol ddatblygu cynllun busnes pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 2026-2030. Byddai'r cynllun hwn yn galluogi'r sefydliad i bontio o gyflawni ail hanner Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru i'r dyheadau sy'n datblygu ar gyfer strategaeth newydd y tu hwnt i 2030.
    iii. Mae'r Bwrdd yn disgwyl y bydd Amgueddfa Cymru yn dechrau edrych a gweithio'n wahanol yn ystod cyfnod y cynllun pum mlynedd, wrth i'r Amgueddfa ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y mae eu hanghenion a'u disgwyliadau yn newid yn gyflym iawn.
II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y mynegwyd y dylai'r cynllun busnes pum mlynedd wneud y canlynol:

i. Adlewyrchu'r materion canlynol a godwyd yn ystod y gweithdy:
   a. Ystyried opsiynau ar gyfer adolygu gweithgareddau a phortffolio safleoedd presennol yr Amgueddfa er mwyn ailgyfeirio adnoddau at flaenoriaethau newydd a chael effaith ehangach.
   b. Adolygu presenoldeb Amgueddfa Cymru ledled Cymru gyfan mewn ffordd sy'n galluogi'r sefydliad i ailwerthuso ei darpariaeth i gymunedau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd.
   c. Ymgorffori strategaeth ddigidol sy'n gwneud gwell defnydd o ffyrdd digidol o weithio, yn croesawu technoleg ddigidol er mwyn cyfoethogi'r profiad ymwelwyr, ac yn defnyddio dulliau digidol er mwyn cynyddu cyrhaeddiad yr Amgueddfa.

ii. Dylai "hanfodion rhagorol" fod yn un o themâu craidd y cynllun busnes pum mlynedd newydd, gan osod sylfaen gadarn ar gyfer llwyddiant Amgueddfa Cymru yn y dyfodol.

iii. Dylai effaith a dulliau mesur effaith gael eu mynegi'n glir.

iv. Roedd diben Amgueddfa Cymru wedi'i fynegi'n glir yn y Siarter Frenhinol, ond roedd angen trafodaeth strategol o hyd ynghylch pa rai o straeon Cymru roedd Amgueddfa Cymru am eu blaenoriaethu a'u hyrwyddo.

v. Er bod y cynllun busnes yn weithredol iawn, ac felly'n cynnwys ffocws mwy mewnol, dylai strategaeth nesaf Amgueddfa Cymru gael ei datblygu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau a chael ei llywio ganddynt.

vi. Byddai'r penderfyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Arweinyddiaeth er mwyn bwydo i mewn i'r broses o ddrafftio'r cynllun busnes, a fyddai'n dychwelyd i'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC) er mwyn iddo graffu arno, ac yna i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i gael ei gymeradwyo maes o law.

**CAM GWEITHREDU**: Eitem i gael ei hychwanegu at agenda Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi i roi diweddariad ar y cynnydd tuag at y cynllun busnes nesaf.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y datganiadau ar y cynllun busnes pum mlynedd, fel y'u hamlinellir yn 2.II.i. o'r cofnodion hyn.**

---

### 3. Diweddariad ar Brosiect Canmlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (NMC 100)

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a Julie Holmes, Pennaeth Prosiectau Cyfalaf

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a Julie Holmes, Pennaeth Prosiectau Cyfalaf, a ddywedodd y canlynol:

   i. Byddai Julie Holmes, Pennaeth Prosiectau Cyfalaf, nawr yn arwain gwaith cyfalaf ar ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru ac NMC 100.

ii. Dechreuodd y prosiect yn 2022 yn dilyn arolwg cyflwr a ddangosodd fod cyfanswm o £45,000,000 o ôl-groniad cynnal a chadw yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Yn ystod 2024/2025, cafodd y gwaith meddwl ei ddistyllu'n brosiect llawn, gyda'r bwriad i'r Adolygiad Gateway cyntaf gael ei gynnal ym mis Medi 2025.

iii. Cafodd yr Achos Amlinellol Strategol (SOC) ei gwblhau a byddai'n cael ei rannu â Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnos yn dechrau 23 Mehefin 2025. Roedd y SOC eisoes wedi cael ei rannu ag FPCC ac roedd ar gael i'r Ymddiriedolwyr ar gais.

iv. Roedd NMC 100 wedi mynd y tu hwnt i fod yn brosiect adeiladu neu gynnal a chadw, ac roedd bellach yn brosiect strategol i ddathlu 100 mlynedd diwethaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac edrych ymlaen at y 100 mlynedd nesaf.

v. Roedd nifer o opsiynau posibl wedi'u hamlinellu yn y SOC, gan gynnwys adnewyddu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn llwyr, a allai olygu y byddai'r Amgueddfa'n defnyddio rhannau o Neuadd y Ddinas i gadw casgliadau a sicrhau hygyrchedd parhaus yn ystod y gwaith.

vi. Roedd tîm prosiect wedi cael ei ffurfio ac roedd rhai elfennau o'r gwaith adnewyddu wedi cael eu nodi i gael eu gwneud yn y dyfodol agos, gyda phecyn o waith yn dechrau ym mis Hydref 2025 i osod y system larwm tân ddi-wifr a gwaith ychwanegol yn ystod y flwyddyn i sicrhau y byddai'r £3,700,000 o gymorth grant cyfalaf a ddyrennir yn 2025/2026 yn cael ei wario.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Bwrdd gael taith fanwl o gwmpas Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a fyddai'n ymdrin â'r holl faterion a oedd yn heriol i'r safle ar hyn o bryd.

**CAM GWEITHREDU**: Taith i'r Ymddiriedolwyr o gwmpas Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i gael ei threfnu.

ii. Mae Cyngor Caerdydd wedi nodi mewn trafodaethau ei fod yn dymuno parhau i ddefnyddio Siambr y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd misol y Cyngor, ond y gallai fod modd defnyddio'r safle i greu ardal ddiwylliannol i Gaerdydd rhwng Neuadd y Ddinas ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a allai gynnwys partneriaid diwylliannol eraill. Roedd potensial hefyd i Amgueddfa Cymru redeg busnes llogi masnachol o Neuadd y Ddinas. Roedd cytundeb wedi'i sicrhau y byddai Amgueddfa Cymru yn cael y cynnig cyntaf ar safle Neuadd y Ddinas ar ôl i'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo yno gael ei gwblhau.

iii. Byddai angen i oblygiadau ariannol posibl ymgymryd â Neuadd y Ddinas gael eu hystyried yn ofalus yn ystod y broses hon.

iv. Byddai'r gwersi a ddysgwyd o brosiect ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn cael eu hystyried yn NMC 100 ond, am y tro, gan nad oedd cwmpas llawn prosiect NMC 100 wedi'i gadarnhau eto, byddai trefniadau

llywodraethu NMC 100 yn cael eu goruchwylio drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Adnoddau a Chasgliadau (PRCC) yn hytrach nag is-bwyllgor ar wahân o dan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

v. Byddai'r Clwb Syniadau ar gyfer y Dyfodol, a gaiff ei gydgysylltu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn bartner da i ymgysylltu ag ef tra bo NMC 100 yn dal ar y camau cynllunio cychwynnol.

**CAM GWEITHREDU:** Ameerah Mai, Ymddiriedolwr, i rannu gwybodaeth am bwyntiau cyswllt allweddol yn y Clwb Syniadau ar gyfer y Dyfodol a chyflwyno pobl iddynt.

**CAM GWEITHREDU:** SOC llawn i gael ei rannu â'r Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU:** Eitem archwiliad dwfn ar NMC 100 i gael ei hychwanegu at agenda cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Rhagfyr 2025.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

### 4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd trafodaethau ynglŷn â CELF wedi symud yn eu blaen ac roedd disgwyl y byddai'r holl bartïon yn fodlon llofnodi'r contract yn y dyfodol agos.
   ii. Roedd Amgueddfa Cymru wrthi'n cael ei hasesu ar gyfer achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr, ac roedd disgwyl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025.
   iii. Roedd cais wedi cael ei gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am y cyllid cychwynnol ar gyfer prosiect Caerllion Rufeinig.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Byddai cyllid ar gyfer CELF yn cael ei sianelu drwy Gyngor y Celfyddydau yn ystod y cyfnod pontio, ac yna'n uniongyrchol drwy Amgueddfa Cymru am weddill y cyfnod y cytunwyd arno. Roedd cyfarfodydd diweddar gyda Llywodraeth Cymru wedi egluro'r llinellau adrodd a'r disgwyliadau ar gyfer y prosiect.

**CAM GWEITHREDU**: Gan fod yr holl randdeiliaid bellach yn gytûn, caiff sesiwn friffio ar drefniadau CELF ar gyfer y dyfodol ei threfnu cyn cyfarfod mis Medi 2025 ar gyfer yr Ymddiriedolwyr.

   **ii.** Mae Mentrau wedi tendro ar gyfer darparu arlwy bwyd a diod, ynghyd â rhedeg busnes llogi masnachol cysylltiedig ar safleoedd CADW. Roedd trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt, ond roeddent yn annhebygol o ddatblygu ymhellach nes i Brif Swyddog Gweithredol newydd CADW ddechrau yn ei swydd.

iii. Hefyd, roedd Mentrau'n rhan o drafodaethau tebyg gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal ag archwilio'r posibilrwydd o gyflenwi mwy o gynhyrchion Cymreig i'w safleoedd yng Nghymru.

iv. I gefnogi gwaith ym maes Casgliadau, roedd Cofrestrydd newydd wedi cael ei benodi. Fodd bynnag, gan fod angen gwneud llawer o waith ar gyfer arddangosfa a thaith Gwen John sydd ar y gweill, ac am fod nifer mawr o fenthyciadau'n gysylltiedig â hynny, roedd y tîm yn gweithio hyd eithaf ei gapasiti. Roedd cynnig wedi cael ei gyflwyno i'r Uwch-dîm Gweithredol ar gyfer recriwtio Cofrestrydd Cynorthwyol i gynorthwyo. Nes y bydd capasiti ychwanegol wedi'i greu ar gyfer y tîm, byddai benthyciadau rhyngwladol safonol a benthyciadau o'r DU y tu allan i Gymru yn parhau i gael eu rhewi.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**5. Diweddariad gan y Cadeirydd**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, a dynnodd sylw at ymweliadau allweddol â safleoedd a chyfarfodydd â rhanddeiliaid a chefnogwyr.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**6. Diweddariad Ariannol – Adroddiad Ariannol Diwedd Mis**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:

  i. Roedd y cyfrifon rheoli'n dangos y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025, ond byddai'r ffigurau'n newid fymryn cyn cael eu cadarnhau'n derfynol oherwydd gweithgareddau diwedd blwyddyn a oedd yn dal i fynd rhagddynt.

  ii. Byddai gweithgareddau gweinyddol yn arwain at ddileu gwerth rhwng £3,000,000 a £4,000,000 o arian parod ond, gan fod hyn yn sgil gweithgareddau i lanhau'r cyfrifon, ni fyddai'n effeithio ar sefyllfa ariannol sylfaenol Amgueddfa Cymru.

  iii. Drwy gydol 2025/26, byddai gweithgareddau i ailbrisio ystad Amgueddfa Cymru yn cael eu cynnal, yn dilyn ymholiadau gan Archwilio Cymru yn yr archwiliad diwethaf.

II. Cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

  i. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr pam oedd tanwariant o £32,000 yn y cyfrifon er eu bod wedi cael gwybod na fyddai dim tanwariant. Yn yr ymateb, dywedodd y staff na ellid osgoi'r lefel hon o danwariant oherwydd pwysau ar ddiwedd y flwyddyn, ond roedd yn dal o fewn y goddefiannau derbyniol. Ar ben hynny, dywedodd y staff fod gwariant 2025/2026 wedi'i or-raglennu'n fwriadol yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn osgoi tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

ii. Byddai'r ffordd y caiff y cyfrifon eu cyflwyno'n cael ei hailwampio er mwyn eu gwneud yn haws eu deall i'r Ymddiriedolwyr.

iii. Roedd cyfrifon mis Mai 2025/2026 yn cael eu cwblhau'n derfynol, yn unol â'r arfer safonol, ac nid oedd cyfrifon mis Ebrill 2025/2026 wedi cael eu llunio oherwydd pwysau ar gapasiti yn sgil gweithgarwch diwedd blwyddyn 2024/2025.

iv. Byddai tanwariant o £200,000 yn cael ei gofnodi yng nghyfrifon rheoli mis Mai 2025, ond nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn destun pryder oherwydd gwariant wedi'i raglennu ar gyfer y dyfodol a'r ffaith ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**7. Eitemau Coll a Heb eu Darganfod yn y Casgliad Hanes ac Archaeoleg**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:

   i. Yr ysgogiad ar gyfer cam cychwynnol y gwaith hwn ym mis Medi 2023 oedd y cyhoeddiad ynglŷn â'r anawsterau a wynebodd yr Amgueddfa Brydeinig. Fodd bynnag, yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Amgueddfa Brydeinig, nid ystyrid bod eitemau wedi cael eu dwyn; yn hytrach, nid oedd eu lleoliad ar ystad Amgueddfa Cymru yn hysbys.

   ii. Ers yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Medi 2023, roedd 20% o'r eitemau coll o Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi cael eu darganfod.

   iii. Roedd y gwaith yn dal i fynd rhagddo, ond roedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn gwneud cynnydd sylweddol yn y prosiect hwn.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

   i. Roedd timau o fewn Amgueddfa Cymru yn wynebu problemau capasiti. Roedd y Grŵp Cyflogaeth yn cael ei ailgynnull er mwyn dod o hyd i swyddi y gellid eu dirwyn i ben er mwyn gwneud lle ar gyfer swyddi newydd.

   ii. Byddai PRCC yn archwilio gofynion a blaenoriaethau staffio pan fyddai'r staff yn barod i gyflwyno hyn fel eitem.

**CAM GWEITHREDU**: Strategaeth cynllunio'r gweithlu, gyda ffocws penodol ar swyddi i'w blaenoriaethu, i gael ei chyflwyno mewn cyfarfod PRCC yn y dyfodol.

   iii. Nid oedd y system o hapwirio casgliadau, a nodwyd yn adroddiad mis Medi 2023 i'r Bwrdd, wedi cael ei rhoi ar waith oherwydd y gred bod darganfod eitemau coll yn fwy o flaenoriaeth gan fod nifer y staff sydd ar gael yn gyfyngedig. Ar ôl i'r broses o ddarganfod eitemau coll gael ei chwblhau, byddai hapwiriadau'n cael eu cyflwyno ar y safleoedd.

**CAM GWEITHREDU:** Y cyfrifoldeb am oruchwylio cynnydd mewn perthynas ag Eitemau Coll a Heb eu Darganfod i gael ei drosglwyddo i FPCC.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**8. Eitemau i'w Dileu o'r Casgliadau**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitemau i'w dileu o'r casgliadau gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nodwyd eu bod fel a ganlyn:
   i. Yr Adran Diwydiant:
      a. Rhif derbyn 81.82i, morthwyl pŵer gof
      b. Rhif derbyn 72.97i, cloc tyred, grisiau troellog gwaith carreg a haearn gyr o do Gorsaf Drenau Heol y Frenhines, Caerdydd
      c. Rhif derbyn 1995.34, Hofrennydd Sea King y Llynges Frenhinol
   ii. Eitemau nad oeddent yn rhan o'r casgliadau a fyddai'n cael eu gwaredu:
      a. Piniwn haearn bwrw â dannedd pren
      b. Pwmp tar
      c. Pedwar braced canopi gorsaf haearn bwrw Rheilffordd Dyffryn Taf.
   iii. Gwyddorau Naturiol:
      a. Rhif derbyn 98.28G.188-214 a Rhif derbyn 2014-26G.677-681, Sbesimenau Braciopodau Ffosiledig
      b. Rhif derbyn 83.16.1, Rhif derbyn 81.53.52, Rhif derbyn V87.45.1, Rhif derbyn 81.92B, Sbesimenau herbariwm fasgwlar

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y dywedwyd y canlynol:
   i. Byddai'r eitemau a fyddai'n cael eu gwaredu yn cael eu hysbysebu mewn cyfnodolion amgueddfeydd er mwyn gweld a fyddai sefydliadau eraill yn awyddus i'w caffael. Pe na bai ganddynt ddiddordeb, byddai'r eitemau'n cael eu gwaredu'n briodol, a'u hailgylchu lle bo modd.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cynnig i'r eitemau a amlinellir yn y papur gael eu dileu o'r casgliadau.**

---

**9. Ailddatblygu Llanberis**

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a nododd fod arddangosfeydd dros dro'r Amgueddfa ar waith ledled y Gogledd, bod safle Amgueddfa Lechi Cymru wedi cael ei wagio'n llwyr, a bod gwaith paratoi wedi dechrau ar y safle.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
   i. Gan mai dim ond un Ymddiriedolwr a lwyddodd i fynd i'r diwrnod a drefnwyd yn Llanberis ym mis Mai i weld y Ganolfan Gasgliadau newydd a'r gweithgareddau yng Nghastell Penrhyn, byddai diwrnod ymweld arall yn

cael ei drefnu yn ystod 2025/2026 er mwyn sicrhau bod yr holl Ymddiriedolwyr yn cael cyfle i weld y cynnydd a oedd yn cael ei wneud yn Llanberis a'i safleoedd lloeren newydd.

**CAM GWEITHREDU**: Diwrnod Ymweld ychwanegol i gael ei drefnu yn 2025/2026 er mwyn i'r Ymddiriedolwyr gael cyfle i ymweld â Llanberis a'r lleoliadau lloeren.

**ii.** Roedd y storfa gasgliadau yn Llandygai yn enghraifft wych o storfa gasgliadau ymarferol a diddorol sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**10. Hygyrchedd a Chyfyngiadau Safleoedd**

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd Direct Access wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o hygyrchedd y safleoedd yn 2022, ac roedd llawer o'r argymhellion a wnaed wedi cael eu rhoi ar waith.
   ii. Eitemau roedd angen mewnbwn cyfalaf i'w rhoi ar waith a oedd yn weddill yn bennaf; roedd y gyllideb gyfalaf fwy ar gyfer 2025/2026 yn golygu bod modd dyrannu £150,000 tuag at y gwaith hwn, ond roedd angen buddsoddiad amlflwyddyn pellach er mwyn rhoi'r holl argymhellion ar waith.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Roedd yr argymhellion â'r risg fwyaf wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu rhoi ar waith, ond roedd risg o her gyfreithiol yn deillio o'r argymhellion nad oeddent wedi cael eu rhoi ar waith o hyd; fodd bynnag, roedd y staff yn teimlo bod y risg hon wedi'i lliniaru.
   ii. Yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ynghylch y Diffiniad Cyfreithiol o Fenyw, roedd gwaith yn mynd rhagddo i asesu sut y gallai hyn effeithio ar fynediad ar bob un o safleoedd Amgueddfa Cymru.
   iii. Clywodd yr Ymddiriedolwyr fod ymateb Amgueddfa Cymru i'r dyfarniad, a oedd yn canolbwyntio ar osgoi cyhoeddi datganiadau diystyr a diangen, yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer dda gan sefydliadau eraill.

**CAM GWEITHREDU**: Byddai'r cyfrifoldeb am waith monitro Hygyrchedd Safleoedd yn cael ei drosglwyddo i PRCC a'i ychwanegu at ragolwg y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

11. **Risg a'r Gofrestr Risg**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd y byddai'r Grŵp Rheoli Risg yn cyfarfod nesaf ar 24 Mehefin 2025 i adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol lawn.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

   i. Roedd adolygu'r Gofrestr Risg yn eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC). Roedd yn bwysig i drafodaethau ar lefel y Bwrdd gael eu cynnal ar Asesu Risg i Enw Da a Pharodrwydd i Dderbyn Risg.

   ii. Byddai'r cofrestri risg strategol a chorfforaethol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg, er mwyn sicrhau bod risgiau mwy gweithredol sydd â sgôr is yn destun craffu hefyd.

   iii. Roedd Cofrestr Materion wedi cael ei chreu hefyd, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i'w mireinio er mwyn iddi fod yn adnodd strategol clir.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

12. **Trosolwg o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth Amgueddfa Cymru**

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido, a atgoffodd yr Ymddiriedolwyr am y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yr ymrwymwyd iddynt ers 2019, ynghyd â'u statws cyfredol.

II. Cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

   i. Roedd trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gyda Phrifysgol Wrecsam, a byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2025.

**CAM GWEITHREDU**: Eitem ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Phrifysgol Wrecsam i gael ei hychwanegu at agenda cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2025.

   ii. Byddai strategaeth yn nodi pa sefydliadau y byddai Amgueddfa Cymru yn ceisio sicrhau Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â nhw yn cael ei hystyried fel rhan o'r cynllun pum mlynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

13. **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Oriel y Parc**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:
    i. Roedd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) wedi bodoli ers cryn amser, ac roedd yn cael ei adolygu a'i adnewyddu ar sail treigl.
    ii. Roedd adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn wedi bod yn broses gadarnhaol ac roedd APCAP wedi estyn gwahoddiad i Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru ymweld ag Oriel y Parc.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
    i. Ar ôl i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei lofnodi, roedd APCAP yn bwriadu cyhoeddi negeseuon i dynnu sylw at gryfder y bartneriaeth – a fyddai'n cael ei datblygu ymhellach drwy sesiwn gynllunio ar y cyd rhwng Amgueddfa Cymru ac APCAP i drafod cyfleoedd pellach i gydweithio dros y pum mlynedd nesaf.
    ii. Y sail resymegol dros y berthynas agosach hon ag APCAP oedd cyd-destun hanesyddol rhodd Sutherland. Nodwyd bod Amgueddfa Cymru wedi cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â'r cytundeb gwreiddiol yn sgil rhodd Sutherland flynyddoedd lawer yn ôl, a bod cysylltiadau agos wedi cael eu cynnal.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag APCAP mewn perthynas â gweithredu Oriel y Parc, Tyddewi.**

---

## 14. Diweddariad gan y Cadeirydd a Chynnig i Ddiddymu Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, Cadeirydd, a ddywedodd y canlynol:
    i. Roedd y mwyafrif helaeth o argymhellion Amgueddfa Cymru wedi cael eu cwblhau, a dim ond un argymhelliad a oedd i'w gwblhau y flwyddyn ariannol hon.
    ii. Roedd adroddiad diweddaru wedi cael ei rannu â'r Comisiwn Elusennau, ac nid oedd dim sylwadau na chamau gweithredu pellach wedi dod i law ganddo.
    iii. Felly, roedd bellach yn briodol ystyried diddymu Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
    i. Roedd Amgueddfa Cymru yn hyderus bod y drefn briodol wedi cael ei dilyn wrth gau Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig, a chan mai un o is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ydoedd, roedd gan y Bwrdd awdurdod i benderfynu ei ddiddymu.
    ii. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn aelodau o'r Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen hefyd wedi cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r grŵp.

iii. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi bod yn allweddol yn y gwaith o gwblhau argymhellion yr Adolygiad Teilwredig gan fod y ffrwd waith hon wedi bod yn un sylweddol dros y 18 mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig.**

---

**15. Cylchoedd Gorchwyl wedi'u Diweddaru ar gyfer Pwyllgorau Parhaol y Bwrdd**

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu, a nododd y newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud i Gylchoedd Gorchwyl y canlynol:

   i. Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC)
   ii. Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC)
   iii. Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC)

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y newidiadau i Gylchoedd Gorchwyl FPCC, LEC a PRCC.**

---

**16. Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau Parhaol**

**16.1** Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC)

Noddwr a Chyflwynydd: Jan Williams, Cadeirydd ARAC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jan Williams, Cadeirydd ARAC, a ddywedodd y canlynol:

   i. Roedd y Cytundeb Fframwaith â Llywodraeth Cymru dros ddegawd oed, ac roedd hynny'n cyfyngu ar rai agweddau ar allu Amgueddfa Cymru i weithredu mewn cyd-destun a oedd bellach yn wahanol iawn i'r adeg pan gafodd y cytundeb cyfredol ei roi ar waith. Mewn ymateb ar ran Llywodraeth Cymru, nododd Dr Nicky Guy fod aelod newydd o staff wedi cael ei ychwanegu at y Tîm Partneriaeth, a bod ei gylch gwaith yn gynnwys diweddaru Cytundebau Fframwaith yr holl Gyrff Hyd Braich.

**16.2** Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC)

Noddwr a Chyflwynydd: Rhys Evans, Cadeirydd FPCC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Rhys Evans, Cadeirydd FPCC, a bwysleisiodd y canlynol:

   i. Roedd y cyfyngiadau o ran capasiti a gohirio benthyciadau rhyngwladol a benthyciadau o'r DU y tu allan i Gymru yn fater y dylai'r Ymddiriedolwyr ac FPCC fod yn ymwybodol ohono, a byddai FPCC yn craffu arno ymhellach.

**16.3** Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC)

Noddwr a Chyflwynydd: Richard Thomas, Cadeirydd LEC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Richard Thomas, Cadeirydd LEC, a ddywedodd y canlynol:

   i. Gan fod LEC yn bwyllgor newydd sy'n cwmpasu eitemau nad oedd wedi bod yn destun craffu sylweddol ar lefel y Bwrdd yn y gorffennol, byddai sesiwn archwiliad dwfn yn cael ei threfnu ar gyfer pob agenda er mwyn sicrhau bod cyfle ar gyfer craffu gwirioneddol a dwfn.

**16.4** Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC)

Noddwr a Chyflwynydd: Freya Stannard, Cadeirydd PRCC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Freya Stannard, Cadeirydd PRCC, a ddywedodd y canlynol:
    i. Byddai gwaith yn cael ei wneud i graffu ar NMC 100 ar lefel pwyllgor, ac roedd yn debygol y byddai hyn yn arwain at nifer o eitemau sylweddol a fyddai'n cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y dyfodol.

**16.5** Pwyllgor Caerllion

Noddwr a Chyflwynydd: Abigail Lawrence, Cadeirydd Pwyllgor Caerllion

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Abigail Lawrence, Cadeirydd Pwyllgor Caerllion, a ddywedodd y canlynol:
    i. Byddai Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn dathlu ei phen-blwydd yn 175 oed yn 2025, ac roedd rhaglen arbennig o ddigwyddiadau yn cael ei threfnu ar gyfer hyn. Roedd yr Ymddiriedolwyr wedi cael gwahoddiad i ddiwrnod y pen-blwydd.

II. Yn dilyn y diweddariadau, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
    i. Roedd cworwm mewn pwyllgorau wedi cael ei godi fel problem bosibl a chafodd yr Ymddiriedolwyr eu hatgoffa y dylent anfon ymddiheuriadau at Gadeirydd y Pwyllgor a'r Tîm Llywodraethu cyn gynted ag y byddent yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fyddent yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod.
    ii. Cafodd yr Ymddiriedolwyr hefyd eu hatgoffa fod arnynt gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r busnes a gyflawnwyd mewn cyfarfodydd pwyllgor y gwnaethant anfon ymddiheuriadau iddynt.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**17. Llywodraethu'r Pwyllgor**

**17.1 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2025 eu hadolygu.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD cofnodion y Cyfarfod diwethaf.**

**17.2 Log Camau Gweithredu**

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd y camau gweithredu a nodwyd ar y Log Camau Gweithredu o Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2025 eu hadolygu.

**PENDERFYNWYD: NODWYD cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

### 17.3 Rhagolwg y Pwyllgor

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y rhagolwg busnes a gyflwynwyd ar gyfer Sesiynau Cyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sydd i ddod am weddill 2025/2026 fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 1.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

### 17.4 Cofnodion o Bwyllgorau Parhaol

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau Parhaol canlynol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu hadolygu:
   i. Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol (ARC) – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024
   ii. Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol (ARC) – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024
   iii. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025
   iv. PPRC ac ARAC ar y cyd – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025
   v. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

## 18. Unrhyw Fater Arall

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Ni chodwyd unrhyw eitemau o dan Unrhyw Fater Arall.

---

**Diwedd Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**